O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn

Caneuon Ffydd: Rhif 525

O tyn
y gorchudd yn y mynydd hyn;
llewyrched Haul Cyfiawnder gwyn
o ben y bryn bu'r addfwyn Oen
yn dioddef dan yr hoelion dur,
o gariad pur i mi mewn poen.

Ble, ble
y gwnaf fy noddfa dan y ne',
ond yn ei glwyfau dyfnion e'?
Y bicell gre' aeth dan ei fron
agorodd ffynnon i'm glanhau:
'rwy'n llawenhau fod lle yn hon.

Oes, oes,
mae rhin a grym yng ngwaed y groes
i lwyr lanhau holl feiau f'oes;
ei ddwyfol loes a'i ddyfal lef
mewn gweddi drosof at y Tad
yw fy rhyddhad a'm hawl i'r nef.

HUGH JONES, 1749–1825

MYFYRDOD

Mae gweddi Hugh Jones, Maesglasau, yn ei emyn mwyaf adnabyddus yn cael ei llefaru ar sail addewid Gair Duw: 'O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn'. Fe'i maged ar fferm Maesglasau ger Dinas Mawddwy, a dywedir i'r atgofion am ardal ei febyd ddylanwadu arno wrth iddo ysgrifennu'r emyn hwn. Mynydd Seion yw'r mynydd y cyfeiria ato, a dichon mai darlun o'r mynyddoedd o gwmpas ei gartref oedd ganddo pan feddyliai am fynydd Seion, y 'lle sy'n dwyn enw Arglwydd y Lluoedd' (Eseia 18:7). Cwyd Hugh Jones y ddelwedd o dynnu gorchudd yn y mynydd yn uniongyrchol o Eseia 25:7, 'Ac ar y mynydd hwn fe ddifa'r

gorchudd a daenwyd dros yr holl bobloedd.' Mae'r addewid hwn gan y proffwyd yn un o uchelfannau'r Hen Destament a'r Newydd. Mewn un adnod fe geir gwared â'r gelyn olaf ac fe gollir y deigryn olaf hefyd wrth i'r gorchudd o dywyllwch ac anghrediniaeth oedd ar ddynion a merched gael ei godi ac i'r bobl weld dadorchuddio Crist gan oleuni ei Ysbryd Glân fel y gwelwn ni, ei bobl, fwy o'i ogoniant ef.

Cawn edrych yn ôl ac ymlaen gyda'r proffwyd Eseia a Hugh Jones. Yn gyntaf, at yr adeg y daeth Duw â'r holl Hebreaid o dan arweiniad Moses at gwr mynydd Sinai yn yr anialwch er mwyn derbyn y gorchmynion (Ex. 20), a phan fu iddyn nhw wrthod mynd i fyny i'r mynydd hwnnw a mwynhau'r gymdeithas felys yr oedd Duw yn ei cheisio gyda nhw yno. Yn y gwrthodiad hwnnw yn y fan honno y seliwyd eu tynged am y deugain mlynedd nesaf, na welai neb o'r bobl oedd yno wlad yr addewid.

Ond, edrych y proffwyd ymlaen hefyd at gyfnod pan fydd Duw yn cael ei anrhydeddu mewn gwledd fawr ryngwladol y mae ef ei hun wedi ei pharatoi, pryd y bydd ei ogoniant ei hun yn cael ei ddangos ac y bydd modd mwynhau'r gymdeithas felys honno y bu'n ei cheisio gyda'i bobl gyhyd, a 'Haul Cyfiawnder gwyn' yn llewyrchu o ben y bryn yn Iesu Grist a fu'n sicrhau'r gymdeithas honno inni. Fe rwygwyd y llen yn y deml o'r naill ben i'r llall pan fu farw Iesu 'o gariad pur i mi mewn poen', gan ddatgelu bod y ffordd at y Tad yn awr yn rhydd, ac o dderbyn y datguddiad hwnnw, rhaid ei garu a'i addoli gan ei fod bob amser yn eiriol drosom:

'ei ddwyfol loes a'i ddyfal lef
mewn gweddi drosof at y Tad
yw fy rhyddhad a'm hawl i'r nef.'

Gyda ei gyfeiriadaeth Feiblaidd, ei brofiad personol, ei ddelweddu cyfoethog a'i fydr a'i odl grefftus does ryfedd i O. M. Edwards ei alw 'yr emyn gorau yn yr iaith'.

GWEDDI

O Dad, yr hwn wyt 'yn datguddio pethau dwfn a chuddiedig' a phob tywyllwch i ti fel golau dydd, gofynnaf iti dynnu pob gorchudd sydd yn fy rhwystro i rhag gweld dy ogoniant yn Iesu Grist dy Fab, ac y bydd y llen yn cael ei chodi ar y Cymry unwaith eto er mwyn gweld ei degwch ef a cheisio noddfa yn 'ei glwyfau dyfnion e'. Amen.